Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ystadegau Medr

## Ansawdd a Methodoleg: Prentisiaethau a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

**Cyfeirnod ystadegau:** Sta/Medr/07/2025 – **Atodiad A**
**Dyddiad:** 12 Mawrth 2025 (wedi'r ddiwygio 03 Hydref 2025)
**E-bost:** ystadegau@medr.cymru

**Crynodeb:** **Gwybodaeth ansawdd a methodoleg am gynhyrchu ystadegau ar gyfer y adroddiad deilliannau dysgwyr prentisiaeth a dygsu oedolion**

**Thema:** Prentisiaethau, Dygu Oedolion yn y Gymuned

**Ffynhonnell:** Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


Dileu ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned ........ 3
Ffynonellau data ........ 4
Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ........ 4
Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ........ 4
Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED) ........ 4
Diffiniadau a Dulliau ........ 5
Blwyddyn academaidd ........ 5
Oedran ........ 5
Fframwaith prentisiaethau / prentisiaethau ........ 5
Cyfradd gyrhaeddiad ........ 5
Cwblhau ........ 5
Gadael yn gynnar ........ 5
Cefndir ethnig ........ 5
Prydau Ysgol Am Ddim ........ 5
Cymdogaeth leol ........ 6
Gweithgareddau dysgu ........ 6
Rhaglen ........ 6
Cyfradd lwyddiant ........ 6
Gwyn anhysbys (categori ethnig manwl) ........ 6
Talgrynnu ........ 7
Gwybodaeth Bwysig am Ansawdd ........ 8
Perthnasedd ........ 8
Cywirdeb ........ 8
Hanes Prydau Ysgol am Ddim ........ 10
Amseroldeb a Phrydlondeb ........ 10
Hygyrchedd ac eglurder ........ 10
Cymaroldeb a chysondeb ........ 10
Rhaglenni dysgu prentisiaeth ........ 11
Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru+ ........ 12
Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol ........ 12
Datganiad cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ........ 13
Dibynadwyedd ........ 13
Ansawdd ........ 13
Gwerth ........ 13
Newid yn y statws ystadegau achrededig ........ 13

Rhagor o fanylion ..... 14
StatsCymru ..... 14
Allbynnau ystadegol eraill sy’n defnyddio data LLWR ac sy’n tanategu’r datganiad hwn ..... 14

## Dileu ystadegau dysgu oedolion yn y gymuned

Fe’n hysbyswyd gan ddarparydd awdurdod lleol ar 25 Chwefror 2025 fod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24, cyn rhewi data yn derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

Oherwydd maint posibl y broblem, mae ystadegau Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cael eu dileu o'r adroddiad hwn, gan ddisgwyl ymchwiliadau pellach i faint y broblem ac i unrhyw broblemau tebyg yn y data a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol sy'n cyflenwi'r ddarpariaeth.

Roedd un awdurdod lleol wedi bod yn cyflwyno data dysgu i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) na ddylid bod wedi'u cynnwys. Mae'r awdurdod lleol wedi mynd ati i ganfod y data cywir ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ac rydym wedi dileu'r data anghywir o'n hystadegau. Datgelodd yr ymchwiliad fod y problemau ansawdd data hyn hefyd yn bodoli mewn blynyddoedd blaenorol, ond nid yw'r blynyddoedd hyn wedi cael eu cywiro. Gellir cymharu ystadegau cenedlaethol dysgu oedolion â blynyddoedd blaenorol, ond dylid cofio effaith y broblem yn gysylltiedig ag ansawdd data.

Mae effaith y newid yn lleihau nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd ac a derfynwyd o 53,165 i 48,885. Gwnaeth leihau nifer y gweithgareddau dysgu asesadwy a derfynwyd o 26,185 i 25,955. Cynyddodd y gyfradd genedlaethol gyffredinol o 90% i 91% ar gyfer cyrhaeddiad a llwyddiant, ac o 86% i 87% ar gyfer llwyddiant. Nid oedd unrhyw newid i'r gyfradd gwblhau. O fewn yr awdurdod lleol, arweiniodd y newidiadau at ostyngiad 13 pwynt canran i'r gyfradd cwblhau, ac at gynnydd o 2 bwynt canran i'r gyfradd llwyddo.

Cynhaliom ymchwiliad i weld a allai'r broblem a godwyd effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cymharwyd nifer y gweithgareddau dysgu a ddarparwyd gan bob darparydd â lefelau cyllido, a chysylltu ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni chanfuwyd unrhyw broblemau.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o bosibilrwydd am broblemau ansawdd data na fyddent yn effeithio ar brentisiaethau.

O hyn allan, ar ddechrau'r cyfnod cyllido nesaf, bydd Medr yn newid i ddefnyddio Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i adrodd a monitro yn erbyn darpariaeth y Grant Dysgu Cymunedol. Dylai ansawdd y data wella yn sgil hyn. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y data'n cael eu cofnodi'n gywir ar LLWR drwy roi arweiniad a chymorth pellach.

Rydym yn bwriadu defnyddio data a gasglwyd yn ystod gaeaf 2025 i gynnal asesiad pellach o ansawdd data awdurdodau lleol ar gyfer dysgu yn y gymuned.

# Ffynonellau data

## Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Daw'r holl ddata yn yr adroddiad hwn o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Defnyddir y data hyn i fonitro perfformiad a deilliannau ac i lywio 'r gwaith o ddatblygu strategaethau. LLWR yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer ystadegau ar ddysgwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru.

Mae darparwyr cyfleoedd dysgu yn cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru. Cânt eu casglu ar sail dreigl. Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer ystadegau swyddogol yn cael eu casglu yn y mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd berthnasol.

## Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

Dyma gasgliad blynyddol o ddata lefel disgyblion ac ysgolion Mae'n cael ei ddarparu gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ym mis Ionawr bob blwyddyn.

## Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED)

Mae hon yn cysylltu setiau data i olrhain cynnydd dysgwr drwy'r system addysg yng Nghymru. Mae'n paru cofnodion sy'n mynd yn ôl i 2010/11. Caiff ei diweddaru bob blwyddyn.

Defnyddir y CYBLD a'r MED i baru dysgwyr â'u hanes prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd.

# Diffiniadau a Dulliau

### Blwyddyn academaidd

Y flwyddyn academaidd yw 1 Awst i 31 Gorffennaf.

### Oedran

Mae oedrannau fel yr oeddent ar 31 Awst ar ddechrau’r flwyddyn academaidd.

### Fframwaith prentisiaethau / prentisiaethau

Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio. Yng Nghymru bydd prentis yn dilyn fframwaith prentisiaeth cymeradwy, sy'n cynnwys set o gymwysterau gorfodol. Mae'r fframwaith yn sicrhau bod gan brentisiaid yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol.

### Cyfradd gyrhaeddiad

Y gyfradd gyrhaeddiad yw canran y gweithgareddau a gwblhawyd pan enillwyd y cymhwyster.

### Cwblhau

Cwblhau yw nifer y gweithgareddau neu raglenni prentisiaeth sydd wedi'u cwblhau, p'un a enillwyd y cymhwyster neu gyflawnwyd y fframwaith ai peidio.

### Gadael yn gynnar

Caiff dysgwyr eu diffinio fel dysgwyr sy'n gadael yn gynnar os ydynt:

- yn gadael eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad cychwyn
- ac na wnaethant gwblhau'r rhaglen honno
- a bod hyd disgwyliedig y rhaglen yn 24 wythnos neu ragor

Mae dysgwyr sy'n gadael yn gynnar yn cael eu heithrio o fesurau o ddeilliannau dysgwyr.

### Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn ôl safonau wedi'u cysoni Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei hadrodd gan y dysgwr ei hun.

### Prydau Ysgol Am Ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu’n cael credyd cynhwysol. Caiff dysgwyr eu cofnodi fel dysgwyr cymwys os ydynt wedi cyflwyno cais i’w hawdurdod lleol am brydau ysgol am ddim.

Diffinnir dysgwr yn yr adroddiad hwn fel dysgwr a fu “yn gymwys ar unrhyw adeg i gael Prydau Ysgol Am Ddim” os oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod eu haddysg mewn ysgol uwchradd yng Nghymru. Os nad oeddent yn gymwys yn ystod unrhyw flwyddyn mewn ysgol uwchradd yng Nghymru fe’u disgrifir fel ‘erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim’. Caiff dysgwyr nad oedd modd eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru eu categoreiddio fel anhysbys.

### Cymdogaeth leol

Yr ardal fechan a elwir yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n cynnwys cyfeiriad y dysgwr.

### Gweithgareddau dysgu

Mae gweithgareddau dysgu yn cyfeirio at gymhwyster penodol yr astudir ar ei gyfer gan ddysgwr, er enghraifft, lefel A neu sgil hanfodol.

### Rhaglen

Mae rhaglen yn gasgliad o weithgareddau dysgu y bydd dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, gall rhaglen brentisiaeth gynnwys nifer o weithgareddau dysgu ategol.

### Cyfradd lwyddiant

Y gyfradd lwyddiant yw'r ganran o weithgareddau neu raglenni prentisiaeth a gyflawnwyd.

### Gwyn anhysbys (categori ethnig manwl)

Cyn 2019/20, dim ond categori "Gwyn" cyffredinol oedd ar gael i ddysgwyr â chefndir Gwyn. Cofnodwyd rhai dysgwyr yn yr adroddiad hwn o dan y system hon, ac maent wedi'u rhestru fel "Gwyn anhysbys" yn yr ystadegau hyn.

# Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 5 agosaf ac efallai y bydd anghysonderau bychain rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm. Mae canrannau wedi eu talgrynnu i'r digid agosaf.

Cyfrifir canrannau gan ddefnyddio'r ffigyrau wedi eu talgrynnu hefyd; felly, efallai na fydd hi'n bosibl ail-greu'r canrannau a ddyfynnir drwy'r datganiad hwn o'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y tablau.

Mae [c] yn cynrychioli nifer sy'n fwy na 0 ac yn llai na 5, neu ganran ag enwadur sy'n llai na 23 neu rifiadur sy'n llai na 5.

Mae [k] yn cyfeirio at ganran sy'n talgrynnu i 0 ond nad yw'n 0.

Mae [z] yn golygu "amherthnasol".

## Gwybodaeth Bwysig am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb.

### Perthnasedd

Mae'r mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn yn cael eu defnyddio'n bennaf:

- gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad darparwyr ac fel gwybodaeth sylfaenol
- gan Estyn, a all ddefnyddio data cenedlaethol fel cyd-destun wrth ystyried dyfarniadau arolygiadau ac mewn adroddiadau thematig
- gan ddarparwyr eu hunain, fel adnodd rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain a meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, fel rhan o'u cylchoedd hunanasesu blynyddol.

Mae gan Lywodraeth Cymru ac Estyn ymrwymiad i rannu data i leihau biwrocratiaeth i ddarparwyr a sicrhau diffiniadau cyson o berfformiad lle bynnag y bo modd. Maent wedi cydweithio'n agos i ddatblygu'r mesurau hyn a fformat safonol ar gyfer cyflwyno data.

Defnyddir y mesurau hyn hefyd o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Mae'r prif ddefnyddwyr yn cynnwys:

- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau o'r Senedd a Gwasanaeth Ymchwil y Senedd; swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- adrannau llywodraethol eraill;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amryw o ffyrdd. Dyma ambell enghraifft:

- gwaith cefndir ac ymchwil cyffredinol;
- eu cynnwys mewn adroddiadau a briffiau;
- cynghori Gweinidogion;
- llywio a gwerthuso'r broses o lunio polisïau addysg yng Nghymru.

### Cywirdeb

Mae ystadegwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â phroses o gysoni data cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Mae adroddiadau cysoni misol sy'n rhoi ffigurau deilliannau dysgwyr dros dro yn cael eu dosbarthu i sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac awdurdodau lleol. Yna, edrychir ymhellach ar faterion yn ymwneud ag ansawdd data a'u datrys mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Datblygodd Llywodraeth Cymru set o egwyddorion rheoli data ar gyfer darparwyr. Roedd yr egwyddorion hyn yn rhoi eglurhad ar nifer o faterion rheoli data, yn enwedig o dan ba amgylchiadau y gellir dileu cofnodion LLWR yn ogystal â materion fel cofnodi trosglwyddiadau.

Gall dileu cofnodion LLWR a chofnodi trosglwyddiadau yn anghywir gyfrannu at is-gyfrif gweithgareddau dysgu a/neu raglenni dysgu a gwblhawyd ac felly o bosibl chwyddo'r cyfraddau llwyddiant a nodir yn yr allbwn hwn.

### Ffigur 1: Cyfran y rhaglenni prentisiaeth a gofnodwyd fel rhai a drosglwyddwyd, yn ôl math y raglen a blwyddyn academaidd

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prentisiaeth sylfaen | 3 | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 |
| Prentisiaeth | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Prentisiaeth uwch | 4 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Pob prentisiaeth** | **3** | **2** | **2** | **2** | 2 | 2 | 1 |

Disgrifiad: Mae cyfran y pob prentisiaethau a gofnodwyd fel rhai a drosglwyddwyd wedi gostwng yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23

Gwneir dadansoddiad bob blwyddyn i benderfynu ar effaith trosglwyddiadau.

### Ffigur 2: Cyfran y rhaglenni prentisiaeth sydd wedi'u hepgor o fesurau, yn ôl y rheswm dros eu hepgor a blwyddyn academaidd

| | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheswm dros eu hepgor** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** | **Rhif** | **%** |
| Gadael yn gynnar | 2,435 | 12 | 3,380 | 13 | 2,975 | 10 | 2,085 | 12 | 1,830 | 10 | 1795 | 10 |
| Rhaglen ddysgu wedi'i throsglwyddo | 505 | 2 | 500 | 2 | 510 | 2 | 390 | 2 | 310 | 2 | 295 | 2 |
| Diswyddo dysgwr | 245 | 1 | 305 | 1 | 225 | 1 | 100 | 1 | 115 | 1 | 130 | 1 |
| Marwolaeth y dysgwr | 10 | [c] | 10 | [c] | 10 | [c] | 15 | [c] | 15 | [c] | 10 | [c] |
| Cyfanswm hepgor | 3,200 | 15 | 4,195 | 16 | 3,720 | 13 | 2,570 | 15 | 2,570 | 14 | 2225 | 13 |
| Cyfanswm rhaglenni dysgu a ddaeth i ben | 20,755 | 100 | 26,365 | 100 | 28,455 | 100 | 17,280 | 100 | 17,770 | 100 | 17706 | 100 |

Disgrifiad: Mae cyfran y dysgwyr sydd wedi'u gwahardd wedi gostwng o 2022/23 i 2023/24.

Gwneir dadansoddiad bob blwyddyn i fonitro nifer yr achosion a eithrwyd o gyfrifiadau'r mesurau deilliannau i benderfynu a ydynt o fewn trothwyon derbyniol.

## Hanes Prydau Ysgol am Ddim

Ceir hanes y dysgwr o ran cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim drwy baru cofnodion prentisiaeth a dysgu oedolion â chofnodion ysgol hanesyddol. Mae hyn yn defnyddio'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu. Mae'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu yn cysylltu setiau data i olrhain taith dysgwyr drwy'r system addysg yng Nghymru. Mae'n cysylltu cofnodion sy'n mynd yn ôl i 2010/11. Ni ellir paru cofnodion pob dysgwr. Roedd y gyfradd baru yn well i brentisiaid iau.

Nid yw hanes dysgwr o ran cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim ar gael i ddysgwyr a aeth i'r ysgol cyn 2010/11 neu a aeth i'r ysgol y tu allan i Gymru.

**Ffigur 3: Cyfran y prentisiaid yr oedd eu hanes o ran prydau ysgol am ddim yn ystod yr ysgol uwchradd yn hysbys, yn ôl blwyddyn academaidd**

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 38% | 32% | 33% | 45% | 49% | 46% |

Disgrifiad: Mae'r gyfradd baru'n wedi gostwng 3 pwynt canran o 2022/23 i 2023/24

## Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'r amserlen flynyddol ar gyfer cynhyrchu data deilliannau dysgwyr terfynol yn cydbwyso amseroldeb yn erbyn yr angen am ansawdd data cywir i fod yn sail i feincnodau cadarn yn y sector. Daw'r ystadegau o gronfa ddata wedi'i seilio ar yr LLWR ym mis Rhagfyr, (yn flaenorol, ym mis Chwefror tan 2015/16 ar gyfer dysgu oedolion a hyd at 2016/17 ar gyfer dysgu seiliedig ar waith). Yna, caiff yr adroddiad hwn ei lunio a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ac yna'n cael ei gyhoeddi yn yr adran Ystadegau ac Ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir y datganiad fel PDF (PDF/A) ar fformat hygyrch. Mae'r data yn yr adroddiad ar gael yn StatsCymru neu mewn taenlen gysylltiedig sydd ar gael ar fformat data agored (ODS).

## Cymaroldeb a chysondeb

Oherwydd y newidiadau yn y ffordd y dyfarnwyd graddau yn 2020 a'r tarfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw rai o'i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 nac yn 2020/21. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws. Mae’r ystadegau hynny'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau gwahanol ac ni ellir eu cymharu â'r adroddiad hwn.

Gellir cael mynediad at ddatganiadau blaenorol ar dudalen mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a thudalen dysgu cymunedol oedolion ar llyw.cymru.

Mae datganiadau cyn 2018/19 yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth addysg bellach. Mae hyn bellach wedi'i ddisodli gan y mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16. * Nodwch: ni ellir cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol.
Yn 2015/16 cyhoeddwyd canlyniadau Dysgu Seiliedig ar Waith ar wahân i ganlyniadau dysgu oedolion oherwydd gwahaniaethau yn yr amserlenni.

Gellir dod o hyd i ddata cyfatebol ar ganlyniadau dysgwyr ôl-16 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon trwy ddefnyddio'r dolenni hyn:

Skills Funding Agency / Department for Education - Statistics: further education and skills

Scottish Funding Council - Staff and Student Performance Indicators for FE Colleges

Department for the Economy Northern Ireland - Further Education Performance Statistics

Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg a dulliau casglu data, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol â'r ffigurau yn y datganiad hwn.

Mae ystadegau ar addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion ar gael yn yr adroddiadau mesurau perfformiad cyson ar gyfer adroddiadau dysgu ôl-16 . Mae'r ystadegau hyn wedi'u cynllunio i gymharu dysgwyr ar draws gwahanol leoliadau addysg, ac i roi darlun o daith gyfan y dysgwr. Nid ellir cymharu'r fethodoleg yn uniongyrchol â'r ystadegau yn yr erthygl hon.

### Rhaglenni dysgu prentisiaeth

O fis Medi 2022, mae’r holl brentisiaethau adeiladu’n dechrau ar lefel 3 yn lle lefel 2. O’r rhaglenni a ddechreuodd yn 2022/23, dechreuwyd 93% gan wrywod. Mae hyn wedi achosi cwymp mawr yn nifer y prentisiaethau lefel 2 a ddechreuwyd a chynnydd mewn prentisiaethau lefel 3 yn y sector hwn o’i gymharu â ffigyrau blaenorol ar gyfer gwrywod.

Daeth trefniadau newydd ar gyfer contractau dysgu seiliedig-ar-waith i rym o 1 Awst 2021. Fe arweiniodd hyn at drosglwyddo oddeutu 4,800 o brentisiaid presennol i ddarparwyr newydd gyda chofnodion rhaglenni newydd yn cael eu creu ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Fel arfer mae cofnodion rhaglenni newydd sy’n deillio o drosglwyddiad yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau ar brentisiaethau a ddechreuwyd ac eithrio’r mesur targed. Fodd bynnag, ar gyfer 2021/22, ni wnaethom gynnwys y cofnodion gan bod cymaint o ddysgwyr wedi cael eu trosglwyddo fel y byddai’r ystadegau wedi cyflwyno darlun camarweiniol o brentisiaethau a ddechreuwyd yn y chwarter pe baent wedi cael eu gadael i mewn.

## Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru+

Roedd y datganiad hwn yn cynnwys Hyfforddeiaethau mewn ffigyrau ar gyfer dysgu seiliedig-ar-waith hyd at a chan gynnwys blwyddyn academaidd 2021/22. Daeth y rhaglen Hyfforddeiaethau i ben ym mis Mawrth 2022 ac fe'i disodlwyd gan Twf Swyddi Cymru+.

Adroddir ar wahân ar ystadegau ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ yn yr adroddiadau Twf Swyddi Cymru+ chwarterol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ar sail blwyddyn ariannol. Felly nid yw ystadegau 2022/23 ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig-ar-waith yn eu cyfanrwydd yn gallu cael eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar ben hynny, bydd rhywfaint o effaith ar ffigyrau ar gyfer 2021/22 gan bod y rhaglen Hyfforddeiaethau wedi dod i ben ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn academaidd honno.

Ers eu cyflwyno yn 2011/12, roedd hyfforddeiaethau'n rhoi cyfrif am rhwng 10% ac 20% o'r holl ddysgu mewn rhaglenni dysgu seiliedig-ar-waith.

Bydd y mater hwn hefyd yn cael effaith lai ar unrhyw ystadegau a gyflwynir ar gyfer y tri sector (addysg bellach, dysgu cymunedol awdurdodau lleol a dysgu seiliedig-ar-waith) ar y cyd, er enghraifft cyfrifau o ddysgwyr unigryw ar y cyfan.

## Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol

Fe wnaed y newidiadau canlynol i'r casgliad data ar gyfer 2017/18.

- **Dysgu nas cyllidir:**

O 1 Awst 2017, nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu nas cyllidir yn gyhoeddus yn cael ei chasglu trwy LLWR mwyach; er bod y newid ar lefel gweithgareddau unigol bydd yn cael effaith ar nifer y dysgwyr a gofnodir ar y cyfan. Gan bod cyllid yn cael ei gofnodi ar lefel gweithgareddau yn hytrach nag ar lefel dysgwyr, mae'n anodd rhoi asesiad cadarn o'r effaith, gan y gallai'r newid effeithio ar y ffordd y mae darparwyr yn codio eu data hefyd.

- **Sector Dysgu Cymraeg:**

O 1 Awst 2017, nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth Dysgu Cymraeg/Cymraeg i Oedolion mewn sefydliadau Addysg Bellach yn cael ei chasglu trwy LLWR mwyach. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion a chydlynu'r ddarpariaeth ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ers 2015.

Mae'r ddau newid hyn yn golygu, yn enwedig i addysg bellach ran-amser a dysgu cymunedol, nad yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â thueddiadau yn nifer y dysgwyr o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn 2017/18. Gallai'r newidiadau i'r modd y cesglir data roi cyfrif yn llawn am y gostyngiad a welwyd. Er mwyn cyflawnder mae'r siartiau canlynol yn dangos y gyfres amser – ond yn dynodi'r toriad yn y gyfres ac na ellir cymharu ffigyrau ar gyfer 2017/18 â blynyddoedd cynharach.

## Datganiad cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n pennu'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai'r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn y Datganiad Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Ystadegau gan Medr.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a'i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hefyd i bennu cyllid ar gyfer darparwyr dysgu ac mae'n cael ei archwilio.

Pan gyflwynir data rhaid iddo fodloni rheolau dilysu penodol. Pan fo'r ystadegau'n cael eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i'r dysgu a gyflwynir yng Nghymru. Fe'u defnyddir i fonitro a gwerthuso'r sectorau dysgu oedolion, addysg bellach, a dysgu seiliedig-ar-waith.

### Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Cenedlaethol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae'r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â'r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu'r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ystadegwyr sy'n cynhyrchu'r ystadegau'n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu'r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw'r ystadegau'n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

# Rhagor o fanylion

Mae'r datganiad hwn ar gael yn: medr.cymru

## StatsCymru

Mae tablau ychwanegol sy'n rhoi rhagor o fanylder, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhaglen a math o gymhwyster, pwnc, oedran, statws anabledd ac ethnigrwydd, ar gael trwy wasanaeth lledaenu ar-lein Llywodraeth Cymru, StatsCymru.

## Allbynnau ystadegol eraill sy'n defnyddio data LLWR ac sy'n tanategu'r datganiad hwn

- 'Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol' - Ystadegau ar ddysgwyr cofrestredig a'u gweithgareddau.
- 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad)'– Ystadegau ar gyflawniad dysgwyr mewn sefydliadau AB (sy'n deillio o ddata LLWR) a chweched dosbarth mewn ysgolion (sy'n deillio o ffynonellau data ysgolion)
- 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr' – Ystadegau ar gyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn y flwyddyn ar ôl eu rhaglen ddysgu ôl-16.
- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd.
- 'Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19)' – adroddiadau ar ddeilliannau dysgu dysgwyr a oedd ar raglenni galwedigaethol, rhaglenni addysg gyffredinol (gan gynnwys Safon Uwch), prentisiaethau neu gyrsiau dysgu cymunedol.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**